Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, ar ddydd Mercher, Ebrill 26ain 2006 am 7.30 p.m.

Presennol: Maer Cyng Colin Jenkins, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Richard Wallace
Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy

Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Roy Davies, Cyng Pam Steane Price, Cynghorydd Sir Ieuan Jones

Materion yr Heddlu : Croesawodd y Maer PC Vernon Thomas. Adroddodd PC Thomas fod 18 o droseddau wedi'u cyflawni yn Llandeilo yn ystod y mis a bod 11 o'r rhain wedi'u datrys. Mae'r rhain yn cynnwys 2 ladrad a 3 throsedd yn ymwneud â chyffuriau. Mae ymholiadau yn parhau gyda'r lleill. Mynegodd y Cyng Richard Wallace bryder trigolion mewn perthynas â digwyddiadau yn y dref ar Ebrill 21ain, esboniodd PC Thomas o ganlyniad i adroddiadau, bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r Clwb Rygbi yn eu hatgoffa am y rheolau presennol mewn perthynas â chynnal disgos. Hefyd wnaeth PC Thomas ddelio gydag ymholiadau o'r cyfarfod blaenorol mewn perthynas â bracedi CCTV. Roedd hefyd wedi cwrdd â Mrs Hillier, a awgrymodd y dylai'r hysbysfwrdd gael ei gloi ac y byddai allwedd ar gael oddi wrthi hi.

6760 / Ebrill/ 06 Cofnodion Blaenorol

Cymeradwywyd Cofnodion o'r Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Heol Cilgant ar ddydd Mercher, 22ain Mawrth, 2006 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 12fed Ebrill, 2006 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 12fed Ebrill, 2006 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

6761/ Ebrill/ 06 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Roedd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones wedi rhoi ei sylwadau i'r Cyng Colin Jenkins ar y pwyntiau yr oedd yn dymuno eu dwyn i sylw'r cyfarfod. Dosbarthwyd datganiad i'r wasg gan CSC yn nodi eu bod yn ystyried rhoi pris o 30 ceiniog am barcio am awr. Mae'n fwriad i roi 2 le parcio i'r anabl y tu allan i'r Neuadd Ddinesig a 2 le tebyg ger y Ganolfan Ddydd. Croesawyd y mannau parcio hyn gan aelodau.
Darllenwyd datganiad arall i'r wasg yn datgan mai Llandeilo yw'r dref sy'n dioddef fwyaf o lygredd yn Sir Gaerfyrddin a hynny yn bennaf oherwydd y tagfeydd traffig yn Heol Rhosmaen.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

6762 / Ebrill / 06 Doedd dim Materion yn Codi o gyfarfodydd Blaenorol

6763 / Ebrill / 06 Materion Ariannol.

1. Anfonebau i'w Talu.

GREENBARNES (Hysbysfwrdd y Prosiect Treftadaeth)	£ 1048. 74
RHYS WILLIAMS (Gosod golau Nadolig yn ei le)	£ 52. 88
WCVA (Ffi Mawrth)	£ 34 .66
CSC (Rhent Ffôn yn y Ganolfan Addysg Gymunedol)	£ 36. 67
Cywiro ffi trwydded 3 mis yr Hysbysfwrdd (Cof 7655/ Ebrill /06)	
Newid o £5 i £9.95	£ 9.95

Cynigiwyd talu'r rhain gan y Cyng Fran Murphy. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

2. Incwm a dderbyniwyd Mawrth 2006

CSC - (CRONFA GRANT TREFTADAETH)	£ 14937.28
CSC - (GRANT LLWYBRAU TROED)	£ 594.00
LLOG BANC (CYFRIF CYFREDOL)	£ 1.73

3. Gweddillion yn y Cyfrifon (ar 31. 3.06)

LTC Cyfrif Cyfredol	£ 13371.54
LTC Cyfrif Cynilo (28.3.06)	£ 34449.72
LTC Cyfrif Treuliau'r Maer (20.3.06)	£ 1244.76

4. Y Gweddill Ddiwedd y Flwyddyn 2005-6

Cyfanswm Incwm	£ 84487.06
Cyfanswm Gwariant (eithrio TAW)	£ 68572.93
TAW	£ 2607.83
Gweddill	£ 13306.30
Sieciau sydd heb eu talu i mewn ar 31.3.06	£ 892.57
Llai Sieciau a ddygwyd ymlaen o 04/05	£ 1600.00
Cyfanswm incwm / gweddill gwariant ar gyfer y Flwyddyn 2005-6	£ 12598.87

5. Gweddillion Prosiectau

a) Llwybr Treftadaeth – Grant wedi'i dderbyn	£ 14937.28
- Gwariant – Archaeoleg Cambria	£ 19308.00
- Gwariant - Greenbarnes	£ 1408.74
b) Neuadd y Sir - Cais Cynllunio	£ 294.64
- Ffioedd Regan Norris Architects	£ 2520.37

6. Cyfanswm Costau Talu Cyflogau 2005-6 £ 9004.75

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Cyngor gofnodi ei ddiolch i'r Swyddog Cyllid, Mr Christopher Plummer am ddarparu'r cyfrifon diweddaraf erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Eiliwyd hyn gan y Cyng Colin Jenkins.
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy gan fod aelodau wedi ystyried oblygiadau'r newidiadau i gyflogau staff, yr argymhellwyd y dylai'r gyllideb ar gyfer 2206-7 gael ei newid yn unol â hynny yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cyllid. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

6764 / Ebrill / 06 Adroddiad y Maer

Cafwyd adroddiad llawn gan y Maer, Cyng Colin Jenkins o'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis. Nododd y byddai'r Cyngor yn noddi dau gyngerdd yn yr Ŵyl Gerdd eleni, sef
Dydd Sadwrn, Gorffennaf 8fed – gan Emma Kirkby
Dydd Mawrth, 11eg Gorffennaf – gan Rebecca Evans.
Rhoddodd adroddiad llafar am gyfarfod a gynhaliwyd rhwng cynrychiolwyr o Gynghorau Tref Llanymddyfri, Rhydaman, Castell Newydd Emlyn a Chyngor Tref Llandeilo ar Ebrill 20fed mewn perthynas â thaliadau parcio. Mae llythyr cwyno wedi ei anfon at Brif Weithredwr CSC.

6765 / Ebrill / 06 Prosiect yr Ardd

Adroddwyd gan y Cyng Fran Murphy bod y gweithgor am wneud cais am gymorth ariannol oddi wrth B&Q er mwyn prynu sied ar gyfer gardd, fydd yn cael ei rhoi yn yr Ardd.

6766 / Ebrill/ 06 Adroddiad Neuadd y Sir

Croesawyd Mr Paul Regan, y Pensaer sy'n rheoli'r prosiect i'r cyfarfod gan y Maer i agor y tendrau sydd wedi'u derbyn gan ei gwmni i wneud y gwaith yn Neuadd y Sir. Dywedodd bod tendrau wedi'u hanfon at wyth cwmni, a bod tri wedi ymateb.
Mae'r tendrau fel a ganlyn :-
1. Mr David Siggery - £ 73210 ag eithrio TAW
2. Mr T.O. Jones - £ 112902 ag eithrio TAW

Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace y dylid ystyried y tendr isaf gan Regan Norris a bod adroddiad i'w gyflwyno yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn. Roedd pawb o blaid.

6767 /Ebrill / 06 Arddangosfa Tân Gwyllt

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 2il. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer arddangosfa 2006 ar y gweill. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fai 18fed.

6768 / Ebrill / 06 Adroddiad ar y Goleuadau Nadolig

Rhoddwyd adroddiad ysgrifenedig o gyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 16eg.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Mae'r newidiadau sy'n cael ei hargymell ar gyfer 2006 yn cynnwys prynu coeden fwy sylweddol a'i haddurno gyda goleuadau newydd, cael gwared â'r rhaffau o oleuadau sy'n mynd dros y ffyrdd, gan ystyried arddangosfeydd mwy unigol ar yr adeiladau. Cyfarfod nesaf ar Fai 4ydd.

6769 / Ebrill/ 06 Adroddiad y Gweithgor Gweithdrefnau

Rhoddwyd adroddiad ysgrifenedig o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed Ebrill. Mae'r gweithgor wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r Rheolau Sefydlog. Bydd newidiadau pellach yn cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf ar yr 17eg Mai.

6770/ Ebrill / 06 Adroddiad y Swyddog Technegol

1. Adroddodd Mr Davies fod dwy sticill wedi'u gosod ar hyd Llwybr Troed 69/1, a hynny trwy Anne Thomas o Raglen Teithiau Cerdded Sir Gaerfyrddin (hyrwyddo Hawliau Tramwy) ar gais y tirfeddiannwr.
2. Mae Mr Davies wedi siarad â Lorne Stewart mewn perthynas â chytundeb gwasanaeth blynyddol. Byddai hyn yn cynnwys glanhau'r hyddig o'r boiler ac ati, gosod thermo newydd, profi pwysedd y nwy, profi'r allyriadau, darparu adroddiad a thystysgrif. Y gost fyddai £75 ag eithrio TAW. Byddai ffi o £25 ag eithrio TAW yn cael ei godi am brofi'r larwm Nwy.
3. Adroddodd Mr Davies fod y nam ar y ffôn dal heb ei drwsio gan BT.
4. Mae Mr Davies wedi cerdded y llwybrau troed gyda Mr Johnathan Field sydd â diddordeb mewn cyflwyno tendr am y gwaith o gynnal a chadw.

6771 / Ebrill / 06 – Gohebiaeth

1. LlCC- Adroddiad Her Iechyd Cymru – Nodwyd
2. Cymdeithas Gymunedol – copi o lythyr cwyno a anfonwyd at CSC parthed y parc sglef-fyrddio
3. Rhybudd o gyfarfod Partneriaeth Sir Gaerfyrddin ar 11eg Mai – Nodwyd
4. LlCC- gofyn am farn y Cyngor Parthed y Ffordd Osgoi Arfaethedig – I'w ystyried gyntaf gan y Pwyllgor Cynllunio
5. CSC – gofyn am wybodaeth parthed Perchnogaeth cysgodfannau bws – Ni ddylid ymateb, ond dylid anfon y sylw bod angen gwneud gwaith trwsio brys ar y gysgodfan wth ymyl Eglwys Teilo Sant.
6. Adroddiad ar ymgynghoriad y Bwrdd Iechyd Lleol. Cyng Leadbeater i'w ystyried ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.
7. Cynlluniau Datblygu Unedol – Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio i'w ystyried ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

.6772/ Ebrill/ 06 – Unrhyw fater arall sydd yn ôl y Cadeirydd yn fater sy'n ddigon pwysig neu'n fater brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cyng Colin Jenkins i siarad â Cyng Paul Faulkner i weld a oedd yn bwriadu parhau fel Cynghorydd Tref gan fod ei absenoldeb o chwe mis bellach yn dod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 p.m.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk